# Adnodd Sgrinio Asesiad Effaith

| | |
|---|---|
| **Enw’r polisi neu broses** | Rheoleiddio busnesau optegol |
| **Diben y polisi neu broses** | Rheoleiddio pob busnes optegol yn y DU |
| **Tîm/Adran** | Polisi a Safonau |
| **Dyddiad** | 31 Gorffennaf 2024 |
| **Cynhaliwyd y broses sgrinio gan** | Charlotte Urwin |
| **Cymeradwywyd gan** | Steve Brooker |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 6 Awst 2024 |
| **Cyfarwyddiadau:** | • Rhowch gylch o amgylch neu liwio statws presennol y prosiect neu bolisi ar gyfer pob rhes.<br>• **Peidiwch â methu unrhyw resi**. Os nad yw’n berthnasol – rhowch Ddim yn Berthnasol (Dd/B), os nad ydych yn gwybod rhowch farc cwestiwn yn y golofn honno.<br>• Mae’r adnodd hwn yn un byw, gallwch ei ddiweddaru ymhellach wrth i chi gwblhau mwy o gamau gweithredu<br>• Gwnewch yn siŵr bod eich detholiadau yn gywir ar yr adeg cwblhau<br>• Penderfynwch a ydych yn credu bod angen asesiad effaith **llawn** i restru’r risgiau a’r camau gweithredu lliniaru/atgyfnerthu<br>• Os ydych yn credu **nad** oes angen asesiad effaith llawn, rhowch eich rhesymau yn y gofod gwag o dan bob adran.<br>• Gallwch gynnwys sylwadau yn y bocsys neu yn y gofod isod.<br>• Dylech gyflwyno’r ffurflen wedi’i chwblhau i’r Rheolwr Cydymffurfiaeth ar gyfer cymeradwyaeth. |

| A) Effeithiau | Risg uchel | Risg ganolig | | Risg isel | ? neu Dd/B |
|---|---|---|---|---|---|
| 1. Cronfeydd wrth gefn | Mae’n debyg y gallai fod angen cronfeydd wrth gefn | Mae’n bosibl y bydd angen cronfeydd wrth gefn | | Dim effaith ar y cronfeydd wrth gefn/ nid ydynt wedi’u defnyddio | |
| 2. Cyllideb | Nid oes cyllideb wedi'i dyrannu na'i chytuno, ond bydd ei hangen | Nid oes cyllideb wedi’i dyrannu, ond cytunwyd i’w throsglwyddo’n fuan | Cyllideb wedi’i dyrannu, ond gallai fod angen mwy (gan gynnwys yn y blynyddoedd i ddod) | Nid oes angen cyllideb NEU mae’r gyllideb wedi’i dyrannu ac mae’n annhebygol y bydd angen mwy | |
| 3. Deddfwriaeth, Canllawiau neu Reoliadau | Ddim yn siŵr o’r ddeddfwriaeth berthnasol | Ymwybodol o’r holl ddeddfwriaeth ond nid yw wedi’i chynnwys eto yn y prosiect/proses | Ymwybodol o’r ddeddfwriaeth, ac mae wedi’i chynnwys yn y broses/prosiect, ond nid ydym yn cydymffurfio eto | Ymwybodol o’r holl ddeddfwriaeth, ac mae wedi’i chynnwys yn y prosiect/prosiect, ac rydym yn cydymffurfio | |
| 4. Newidiadau i ddeddfwriaeth yn y dyfodol | Disgwylir i’r ddeddfwriaeth gael ei newid o fewn y 12 mis nesaf | Disgwylir i’r ddeddfwriaeth gael ei newid yn y 24 mis nesaf | Gallai’r ddeddfwriaeth gael ei newid ar ryw bwynt yn y dyfodol agos | Nid oes unrhyw gynlluniau i newid y ddeddfwriaeth | |
| 5. Enw da a’r cyfryngau | Mae’r pwnc hwn yn cael cryn sylw yn y cyfryngau ar hyn o bryd neu yn y 12 mis diwethaf | Mae’r pwnc hwn wedi cael sylw cynyddol yn y cyfryngau yn y 12 mis diwethaf | Ychydig iawn o sylw y mae’r pwnc hwn wedi’i gael yn y cyfryngau yn y 12 mis diwethaf | Ychydig iawn o sylw, os o gwbl, y mae’r pwnc hwn wedi’i gael yn y cyfryngau yn y 12 mis diwethaf | |
| 6. Adnoddau (pobl a chyfarpar) | Mae angen adnoddau newydd | Yn debygol o’i gwblhau gyda’r adnoddau presennol, neu drwy rannu adnoddau | Yn debygol o’i gwblhau gyda’r adnoddau presennol | Yn gallu ei gwblhau’r gyda’r adnoddau presennol | |
| 7. Cynaliadwyedd | Mae llai na 5 o bobl yn ymwybodol o’r broses/prosiect, ac nid yw wedi’i chofnodi’n ganolog nac yn llawn | Mae llai na 5 o bobl yn ymwybodol o’r prosiect/proses, ond mae wedi’i chofnodi’n ganolog a llawn | Mae mwy na 5 o bobl yn ymwybodol o’r prosiect/proses, ond nid yw wedi’i chofnodi’n llawn a/neu’n ganolog | Mae mwy na 5 o bobl yn ymwybodol o’r broses/prosiect ac mae wedi’i chofnodi’n glir yn ganolog | |

| A) Effeithiau | Risg uchel | Risg ganolig | | Risg isel | ? neu Dd/ B |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nid oes cynlluniau ar waith ar gyfer hyfforddiant, a/neu bennu dyddiad ar gyfer cwblhau'r hyfforddiant | Nid yw'r deunydd hyfforddi wedi'i greu, ond mae cynllun hyfforddi a pherchennog wedi'u nodi a dyddiadau cwblhau wedi'u pennu | Mae deunydd hyfforddi wedi'i greu, perchennog wedi'i nodi a dyddiadau cwblhau wedi'u pennu | Hyfforddiant wedi'i gwblhau a'i gofnodi gyda'r adran Adnoddau Dynol | Dd/ B |
| 8. Cyfathrebu / codi ymwybyddiaeth | Nid oes cynllun cyfathrebu ar waith, ac ni nodwyd perchennog nac amserlen | Mae cynllun cyfathrebu allanol ar waith (gan gynnwys yr holl randdeiliaid perthnasol) ond nid yw wedi'i gwblhau, mae perchennog a dyddiadau cwblhau wedi'u pennu | Cynllun cyfathrebu mewnol ar waith (ar gyfer pob lefel ac adran berthnasol) ond nid yw wedi'i gwblhau, ac mae perchennog a dyddiadau cwblhau wedi'u pennu | Mae'r cynllun mewnol ac allanol ar waith ac wedi'u cwblhau, perchennog a dyddiadau wedi'u pennu | |
| | Ddim yn siŵr a oes angen ei gyhoeddi yn Gymraeg | Rhaid ei gyhoeddi yn Gymraeg, y Tîm Cyfathrebu yn ymwybodol | | Nid oes angen ei gyhoeddi yn Gymraeg | |

| Rhowch eich sylwadau isod ynglŷn â'ch sgorau effeithiau uchod: |
|---|
| 1, 2 a 6: Diben y prosiect hwn yw nodi'r newidiadau y mae angen i ni eu gwneud i'r fframwaith a ddefnyddiwn i reoleiddio busnesau optegol, er mwyn i ni allu cynnwys yr holl fusnesau sy'n cyflawni swyddogaethau cyfyngedig penodedig (gweler y ddogfen ymgynghori) o fewn cwmpas ein rheoliad. Nid yw'r amserlen ar gyfer cyflawni'r prosiect hwn o fewn rheolaeth y Cyngor Optegol Cyffredinol (y Cyngor) a bydd yn cael ei phennu gan Lywodraeth y DU.<br><br>Felly, mae'r prosiect yn canolbwyntio ar y penderfyniadau polisi y mae angen eu gwneud ac y gellir eu gwneud ar yr achlysur hwn gan ddefnyddio adnoddau a chyllidebau polisïau a safonau presennol. Mae'n bosibl y bydd angen i ni gomisiynu ymgynghoriad ychwanegol i hysbysu penderfyniadau polisi, a gallai olygu y bydd angen mynediad at y cronfeydd wrth gefn yn y dyfodol.<br><br>Am ein bod eisoes yn rheoleiddio rhywfaint o fusnesau optegol ac felly mae gennym systemau a phrosesau i reoli'r gwaith rheoleiddio hwnnw, gallwn ddefnyddio'r systemau hynny i reoleiddio'r busnesau hynny. Er enghraifft, mae gennym eisoes systemau a phrosesau i'n galluogi i gynnal cofrestr o fusnesau optegol, a bydd y rhain yn cael eu diweddaru i adlewyrchu'r newidiadau hyn. |

Fodd bynnag, bydd angen adnoddau (ariannol a phobl) er mwyn gallu gweithredu a chynnal ein cynigion. Mae ein hymchwil gan Europe Economics yn amcangyfrif y byddai angen tri swyddog cofrestru ychwanegol arnom ar gyfer cyfnod o chwe mis a hanner amser cyfreithiwr sydd gyfwerth ag amser llawn (FTE) i lunio newidiadau i'r rheol a'r ddeddfwriaeth. Amcangyfrifir bod y costau gweinyddol untro ychydig dros £90,000 (gan gynnwys gorbenion, costau recriwtio a hyfforddiant lle y bo'n berthnasol). Byddem hefyd yn ysgwyddo costau parhaus ar gyfer cynnal ein cofrestr fwy o fusnes, gan gynnwys y broses adnewyddiadau. Rydym yn rhagweld y byddai angen dau swyddog cofrestru llawn amser y flwyddyn ar gyfer hyn, am gyfanswm amcangyfrifedig o bron £90,000 y flwyddyn. Mae hefyd yn debygol y byddai cofrestr fwy o fusnesau yn arwain at gostau uwch addasrwydd i ymarfer. Fel y nodwyd yn y papur ar orfodi a sancsiynau, mae lefelau cymharol isel o gwynion am fusnesau optegol. Mae'r ymchwil yn amcangyfrif bod y costau hyn tua £80,000 y flwyddyn. Rydym yn cynnig y byddai pob busnes yn rhan o'r Gwasanaeth Cwynion Defnyddwyr Optegol (OCCS). Rydym yn cynnig y bydd yr OCCS yn parhau i gael ei ariannu drwy ffioedd cofrestreion, ond mae'n bosibl y bydd costau ychwanegol yn gysylltiedig â'r nifer o fusnesau a all ymgysylltu â'r OCCS.

Bydd y costau i'r Cyngor yn cael eu gwrthbwyso gan incwm uwch o ffioedd cofrestreion busnes. Dylai'r gost reoleiddio fesul busnes leihau yn sgîl arbedion maint. Ar y cam hwn rydym wedi nodi costau posibl lle y bo'n briodol ym mhob cynnig, fel y'u nodir yn yr atodiadau.

Rydym hefyd yn cydnabod y gallai ein cynigion gyflwyno goblygiadau adnoddau i fusnesau optegol, yn arbennig y rhai nad ydym yn eu rheoleiddio ar hyn o bryd. Mae ein hymchwil gan Europe Economics yn rhoi rhywfaint o fanylion am y costau i fusnesau, ond bydd y gost yn amrywio yn ôl y model a ddewisir yn y pen draw a ffactorau eraill, er enghraifft graddau'r newidiadau y bydd angen i fusnes eu gwneud er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'r cynigion.

Rydym yn cydnabod, unwaith y bydd ein cynigion yn cael eu cwblhau, y bydd angen i ni wneud gwaith pellach i asesu effaith pob cynnig a byddwn yn ceisio barn ar gostau yn ystod yr ymgynghoriad.

3 a 4: Bydd unrhyw newidiadau i'n fframwaith rheoleiddio busnes yn ei gwneud yn ofynnol i newid ein deddfwriaeth. Felly, bydd deddfwriaeth yn newid yn y dyfodol, yn ddibynnol ar gytundeb gan Lywodraeth y DU.

8: Byddwn yn paratoi cynllun cyfathrebu llawn i gefnogi ymgysylltiad yn yr ymgynghoriad. Bydd dogfen ac atodiadau'r ymgynghoriad yn cael eu cyfieithu i'r Gymraeg. Mae'r cynigion yn y ddogfen hon yn berthnasol i fframwaith rheoleiddio busnes a fydd yn berthnasol i bob busnes optegol ar draws y DU, gan gynnwys yng Nghymru. Rydym wedi asesu na fydd y cynigion hyn yn cael unrhyw effeithiau ar gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith Gymraeg nac yn effeithio ar y driniaeth o'r Gymraeg.

Mae'r risgiau a nodwyd yn yr adran hon yn risgiau isel a chanolig. Aed i'r afael â nhw i'r graddau yr oedd modd ac nid oes angen asesiad effaith llawn.

| B) Llywodraethu Gwybodaeth | Risg uchel | Risg ganolig | | Risg isel | ? neu Dd/B |
|---|---|---|---|---|---|
| 1. Pa ddata sy’n rhan o hyn? | Data personol sensitif | Data personol | Data busnes preifat / caeedig | Data busnes cyfrinachol / agored | |
| 2. A fydd y data yn ddienw? | Na | Weithiau, mewn dogfennau a rennir | Bydd, ar unwaith, a’r gwreiddiol yn cael ei gadw | Bydd, ar unwaith, a’r gwreiddiol yn cael ei ddileu | |
| 3. A fydd yn bosibl adnabod unrhyw un o’r data? | Bydd | Bydd, ond mae eu henw eisoes yn gyhoeddus (Uwch Dîm Rheoli/Cyngor) | Nid o’r data hwn yn unig, ond o bosibl pan fydd data yn cael ei gyfuno â ffynhonnell arall | Na – i gyd yn ddienw ac ni ellir ei gyfuno â gwybodaeth arall | Dd/ B |
| 4. A fydd yr **holl** ddata a gesglir yn cael ei ddefnyddio? | Na, hwyrach yn y dyfodol | Bydd, ond dyma’r tro cyntaf i ni ei gasglu a’i ddefnyddio | Bydd, ond nid yw wedi’i ddefnyddio’n llawn o’r blaen | Bydd, eisoes yn cael ei ddefnyddio’n llawn | |
| 5. Beth yw swm y data sy’n cael ei drin y flwyddyn? | Mawr – dros 4,000 o gofnodion | Canolig – rhwng 1,000-3,999 o gofnodion | | Llai na 1,000 o gofnodion | |
| 6. A oes gennych chi gydsyniad gan wrthrychau’r data? | Na | O bosibl, mae wedi’i esbonio ar ein gwefan (Amdanom Ni) | Oes, wedi'i gael yn benodol, heb ei gofnodi bob amser | Oes, wedi’i gael yn benodol ac wedi’i gofnodi /neu’n rhan o ddyletswydd/cytundeb statudol | Dd/ B |
| 7. Ydych chi’n gwybod am ba hyd y cedwir y data? | Na – nid yw ar yr amserlen gadw eto | Ydw – mae ar yr amserlen gadw | Ydw – ond nid yw ar yr amserlen gadw | Ar yr amserlen gadw **ac** mae’r cyflogeion perthnasol yn ymwybodol | |
| 8. Lle ac ym mha fformat y cedwir y data (dileer fel y bo’n briodol) | Papur; gartref/oddi ar y safle; system neu ddarparwr TG newydd; Survey Monkey; gliniadur personol | Papur; ystafell archifau; storfa swyddfa (dan glo) | Gyriant a rennir y Cyngor; gyriant personol | System TG arall (mewn defnydd); Porth ar-lein; CRM; Wedi’i sganio a’i gadw ar y gyriant H: ffolder y tîm/adran | |
| 9. A yw ar y gofrestr asedau gwybodaeth? | Na | Ddim eto, rwyf wedi’i gyflwyno i’r Perchennog Asedau Gwybodaeth | Ydy, ond nid yw wedi’i adolygu gan IAO eto | Ydy, ac mae wedi’i adolygu gan IAO a’i gymeradwyo gan adran y Llywodraeth | |

| B) Llywodraethu Gwybodaeth | Risg uchel | Risg ganolig | | Risg isel | ? neu Dd/ B |
|---|---|---|---|---|---|
| 10. A fydd y data yn cael ei rannu neu ei ddatgelu gyda thrydydd partïon? | Bydd, ond nid oes unrhyw gytundebau ar waith | Bydd, cytundeb ar waith | O bosibl, o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth | Na, defnydd mewnol yn unig | |
| 11. A fydd y data yn cael ei drin gan unrhyw un y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd? | Bydd | - | - | Na | |
| 12. A fydd data personol neu adnabyddadwy yn cael ei gyhoeddi? | Bydd – nid yw wedi'i gymeradwyo gan yr adran Gydymffurfiaeth eto | Bydd – cytunwyd gyda'r adran Gydymffurfiaeth | Na, bydd data personol ac adnabyddadwy yn cael ei olygu | Dim – ni fydd unrhyw ddata personol neu adnabyddadwy yn cael ei gyhoeddi | |
| 13. Mae'r unigolion sy'n trin y data wedi'u hyfforddi'n briodol | Nid yw rhai pobl erioed wedi'u hyfforddi gan y Cyngor mewn LlG | Pob un wedi'u hyfforddi mewn LlG ond fwy na 12 mis yn ôl | | Ydy, pob un wedi'u hyfforddi mewn LlG yn y 12 mis diwethaf | |

| Rhowch eich sylwadau isod ynglŷn â'r rhesymau dros y sgorau llywodraethu gwybodaeth: |
|---|
| 1-13: Mae'r cynigion ymgynghori yn ymwneud â rheoleiddio busnesau, nid unigolion. Felly, nid ydym yn rhagweld y byddai'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn darparu data personol am unigolion ond efallai y byddant yn darparu gwybodaeth am arferion masnachol. Yn unol â'n polisi ymgynghori, byddwn yn golygu gwybodaeth yr ydym yn ystyried ei bod yn sarhaus, yn flinderus, yn enllibus neu'n cynnwys rhethreg sy'n hyrwyddo ymddygiad/safbwyntiau gwahaniaethol yn erbyn unrhyw un sydd â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 neu sy'n amherthnasol (consultation-policy-final-july-2024.pdf (optical.org)).<br><br>Gall ymatebwyr i'r ymgynghoriad ddarparu eu gwybodaeth bersonol (enw, manylion cyswllt a gwybodaeth EDI) wrth gyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad, ond nid yw'n orfodol. Pan fydd gwybodaeth o'r fath wedi'i chasglu, caiff ei defnyddio at ddibenion dadansoddi ymatebion yn unig ac ni fyddwn yn nodi nac yn cyhoeddi enwau unrhyw unigolion sydd wedi ymateb i'r ymgynghoriad.<br><br>Mae ein platfform ymgynghori yn cynnwys datganiad preifatrwydd, sy'n nodi sut y byddwn yn defnyddio data ymatebwyr (Polisi Preifatrwydd \| Cyngor Optegol Cyffredinol).<br><br>Mae'r rhan fwyaf o risgiau yn isel neu ganolig ac maent wedi'u lliniaru.<br><br>Nid oes angen asesiad effaith llawn. |

| C) Hawliau dynol, cydraddoldeb a chynhwysiant | Risg uchel | Risg ganolig | | Risg isel | ? neu Dd/B |
|---|---|---|---|---|---|
| 1. Prif gynulleidfa/ defnyddiwr polisi | Cyhoeddus | | | Cofrestreion, cyflogeion neu aelodau | |
| 2. Cyfranogi mewn proses (yr hawl i gael eich trin yn deg, hawl rhyddid mynegiant) | Ydy, mae’r polisi, proses neu weithgarwch yn cyfyngu ar gynhwysiant, rhyngweithiad neu gyfranogiad unigolyn mewn proses | | | Na, nid yw’r polisi, proses neu weithgarwch yn cyfyngu ar gynhwysiant, rhyngweithiad neu gyfranogiad unigolyn mewn proses | |
| 3. Mae’r polisi, proses neu weithgarwch yn cynnwys gwneud penderfyniadau sy’n rhoi canlyniadau i unigolion (hawl i achos teg, yr hawl i gael eich trin yn deg) | Ydy, gwneir y penderfyniad gan un unigolyn, a all adolygu pob achos neu beidio | Ydy, gwneir y penderfyniad gan un unigolyn, sy’n adolygu pob achos | Ydy, gwneir y penderfyniad gan banel a ddewisir ar hap; a all adolygu pob achos neu beidio | Ydy, gwneir y penderfyniad gan banel cynrychioliadol (a ddewisir yn benodol) NEU Na, nid oes angen unrhyw benderfyniad | |
| | Mae meini prawf cyfyngedig ar gyfer gwneud penderfyniadau; gwneir penderfyniadau ar sail barn bersonol | Mae rhai meini prawf ar gyfer gwneud penderfyniadau; gwneir penderfyniadau ar sail ystyriaeth ‘achos unigol’ | Mae meini prawf clir ar gyfer gwneud penderfyniadau, ond nid oes dull o gofnodi’r penderfyniad | Mae meini prawf clir ar gyfer gwneud penderfyniadau a dull o gofnodi’r penderfyniad | |
| | Nid oes unrhyw broses adolygiad mewnol neu apelio annibynnol | Mae ffordd i apelio’n annibynnol, ond nid oes proses adolygu fewnol | Mae proses adolygu fewnol, ond nid oes ffordd o apelio’n annibynnol | Mae proses glir i apelio neu gyflwyno achwyniad i gael adolygiad mewnol ac adolygiad annibynnol o’r canlyniad | |
| | Nid yw’r rhai sy’n gwneud penderfyniadau wedi derbyn hyfforddiant EDI a | Disgwylir i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau | Nid yw’r rhai sy’n gwneud penderfyniadau yn | Mae’r rhai sy’n gwneud penderfyniadau wedi derbyn hyfforddiant EDI | |

| C) Hawliau dynol, cydraddoldeb a chynhwysiant | Risg uchel | Risg ganolig | | Risg isel | ? neu Dd/B |
|---|---|---|---|---|---|
| | rhagfarn ddiarwybod, ac nid oes unrhyw gynlluniau i gynnal hyn yn y 3 mis nesaf | dderbyn hyfforddiant EDI a rhagfarn ddiarwybod yn ystod y 3 mis nesaf, sy'n cael ei archebu | cymryd rhan cyn derbyn hyfforddiant EDI a rhagfarn ddiarwybod | a rhagfarn ddiarwybod yn ystod y 12 mis diwethaf, sydd wedi'i gofnodi | |
| 4. Hyfforddiant i bawb sy'n berthnasol | Mae llai na 50% o'r rhai sy'n berthnasol wedi derbyn hyfforddiant EDI yn y 12 mis diwethaf; ac nid oes unrhyw hyfforddiant pellach wedi'i gynllunio | Mae dros 50% o'r rhai sy'n cymryd rhan wedi derbyn hyfforddiant EDI, ac mae hyfforddiant wedi'i drefnu ar gyfer y gweddill yn y 3 mis nesaf. | | Mae dros 80% y rhai sy'n cymryd rhan wedi derbyn hyfforddiant EDI yn y 12 mis diwethaf, sydd wedi'i gofnodi | |
| 5. Ffurfiau amgen – electronig / ysgrifenedig ar gael? | Nid oes unrhyw fformatau amgen ar gael – dim ond un opsiwn | Oes, y rhyngrwyd/ar gyfrifiadur yn bennaf, ond gellir defnyddio fersiynau papur | | Fformatau amgen ar gael a gall defnyddwyr eu trafod a'u cwblhau gyda'r tîm | |
| 6. Y lleoliad lle cynhelir y gweithgarwch | Nid yw datblygu hygyrchedd yn cael ei ystyried | Mae hygyrchedd yr adeilad yn cael ei ystyried weithiau | | Mae datblygu hygyrchedd yn cael ei ystyried bob amser | Dd/B |
| | Adeilad anhygyrch; | Adeiladau rhannol hygyrch; | Adeiladau hygyrch, er nad yw bob safle wedi'i arolygu | Mae pob adeilad a safle hygyrch wedi'u harolygu | Dd/B |
| 7. Presenoldeb | Rhybudd byr o ran dyddiadau/lleoedd i'w mynychu | Rhybudd canolig (5-14 diwrnod) o ddyddiau/lleoliadau i'w mynychu | | Yn cael ei gynllunio ymhell ymlaen llaw | |
| | Newid i drefniadau yn aml iawn | Ceir newidiadau i drefniadau yn eithaf aml | | Mae newidiadau i drefniadau yn brin | |
| | Dim ond wyneb yn wyneb y gellir mynychu | Angen mynychu wyneb yn wyneb yn bennaf | | Gellir mynychu o bell | |
| | Presenoldeb / cyfranogiad anghyfartal y mynychwyr | Presenoldeb/cyfranogiad anghyfartal y mynychwyr, ond mae hyn yn cael ei fonitro a'i reoli | | Mae presenoldeb/ cyfranogiad yn gyfartal ac yn cael eu mesur fesul mynychai | |

| **C) Hawliau dynol, cydraddoldeb a chynhwysiant** | **Risg uchel** | **Risg ganolig** | | **Risg isel** | **? neu Dd/ B** |
|---|---|---|---|---|---|
| | Dim gwyliau crefyddol yn cael eu hystyried; dim ond gwyliau Cristnogol sy’n cael eu hystyried | Mae prif wyliau crefyddol y DU yn cael eu hystyried | Ystyrir prif wyliau crefyddol y DU, a cheisir cyngor gan unigolion yr effeithir arnynt os nad oes dyddiadau eraill | Ystyrir gwyliau crefyddol, a’r gallu i fod yn hyblyg (ar ddyddiadau, neu ddisgwyliadau hyblyg os nad oes dyddiadau amgen) | |
| 8. Costau cysylltiedig | Nid yw treuliau posibl wedi’u cynnwys yn ein polisi treuliau | Gall rhai pobl, sy’n dangos tystiolaeth o’u hangen, hawlio treuliau posibl, penderfyniadau ar sail achosion unigol | | Gall y rhan fwyaf o’r defnyddwyr hawlio treuliau posibl ac mae hyn wedi’i gynnwys yn ein polisi treuliau; rhadbost ar gael | Dd/ B |
| 9. Teg i anghenion yr unigolyn | Cyswllt heb ei restru i drafod addasiadau rhesymol, nid yw gweithwyr yn ymwybodol o gynghorwyr addasiadau rhesymol | Mae’r rhan fwyaf o gyflogeion yn gwybod pwy i gysylltu â nhw gydag ymholiadau ynglŷn ag addasiadau rhesymol | | Cyswllt wedi’i restru ar gyfer trafodaeth ar addasiadau rhesymol | Dd/ B |
| 10. Ymgynghori a chynhwysiant | Dim ymgynghori; ymgynghori â chyflogeion mewnol yn unig | Ymgynghori â chyflogeion ac aelodau | Ymgynghori â chyflogeion, aelodau a grwpiau ehangach | Ymgynghori â defnyddwyr polisi, cyflogeion, aelodau a grwpiau ehangach | |

| Rhowch eich sylwadau isod ar gyfer y sgorau hawliau dynol, cydraddoldeb a chynhwysiant uchod: |
|---|
| 3: Bydd ein Cyngor yn gwneud penderfyniadau ar y model rheoleiddio busnes yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus. Nid yw’r penderfyniadau hyn yn rhoi canlyniadau yn uniongyrchol i unigolion, er pe byddai’r cynigion yn cael eu gweithredu gan Lywodraeth y DU yna byddai’n ofynnol i berchnogion busnes sy’n darparu swyddogaethau cyfyngedig penodedig gofrestru gyda’r Cyngor. Nid oes hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau’r Cyngor. Fodd bynnag, Llywodraeth y DU fydd yn penderfynu i weithredu’r newidiadau hyn ai peidio. |

| |
|---|
| 5: Mae’r ymgynghoriad ar gael i bawb ar ein gwefan. Mae dogfennau ar gael mewn fformatau amgen ar gais. Gwneir unrhyw benderfyniadau ar y model rheoleiddio busnes yn un o gyfarfodydd cyhoeddus y Cyngor a gynhelir ar-lein ac sy’n agored i bawb eu mynychu. Rydym yn cyhoeddi papurau’r Cyngor wythnos cyn y cyfarfodydd.<br><br>6-9: Cynhelir cyfarfodydd y Cyngor ar-lein. Byddai unrhyw benderfyniadau ar reoleiddio busnes yn cael eu gwneud yn un o gyfarfodydd cyhoeddus y Cyngor, sy’n agored i’r cyhoedd. Cyhoeddir y papurau ar gyfer y cyfarfod wythnos ymlaen llaw ac maent ar gais mewn fformatau amgen ar gais.<br><br>10: Cadarnhaodd ein hymgynghoriad yn 2022 ar y galwad am dystiolaeth ar Ddeddf yr Optegwyr 1989 a pholisïau cysylltiedig y Cyngor <https://optical.org/en/about-us/get-involved/consultations/consultations-2018-23/2022-archived-consultation-call-for-evidence-on-the-opticians-act-and-consultation-on-associated-goc-policies/> bod cefnogaeth gref gan randdeiliaid i ymestyn rheoleiddio busnes i bob busnes sy’n cynnal swyddogaethau cyfyngedig.<br><br>Nid oes angen asesiad effaith llawn. |

| Nodwedd warchodedig | Math o effaith bosibl: cadarnhaol, niwtral, negyddol? | Esboniadau (gan gynnwys enghreifftiau neu dystiolaeth/data a ddefnyddiwyd) a’r camau sydd eu hangen i fynd i’r afael ag effaith negyddol |
|---|---|---|
| Oedran | Cadarnhaol | Bydd y cynigion hyn yn arwain at bob busnes optegol sy’n cyflawni swyddogaethau penodol yn cael ei reoleiddio gan y Cyngor. Mae ein hymchwil canfyddiadau’r cyhoedd yn dangos bod pobl ifanc yn fwy tebygol o brofi rhywbeth yn mynd o’i le yn ystod ymweliad â’r optegydd/practis optometrydd. Bydd ymestyn rheoleiddio busnes i bob busnes optegol sy’n darparu swyddogaethau cyfyngedig penodol yn golygu y bydd yn ofynnol i bob busnes gydymffurfio â’n safonau a bydd gwell mynediad at iawn i ddefnyddwyr pe bai rhywbeth yn mynd o’i le.<br><br>Byddai cymhwysiad cyson safonau busnes y Cyngor hefyd yn fuddiol i gyflogeion oherwydd byddai’n darparu amgylchedd gwaith mwy safonol a diogel. Mae ein hymchwil yn dangos bod cofrestreion iau yn fwy tebygol o brofi aflonyddwch, bwlio, camdriniaeth neu wahaniaethu yn y gwaith. Rydym yn atgyfnerthu ein safonau i sicrhau bod busnesau yn darparu mwy o gefnogaeth i staff sy’n profi bwlio, aflonyddwch, camdriniaeth a |

| Nodwedd warchodedig | Math o effaith bosibl: cadarnhaol, niwtral, negyddol? | Esboniadau (gan gynnwys enghreifftiau neu dystiolaeth/data a ddefnyddiwyd) a'r camau sydd eu hangen i fynd i'r afael ag effaith negyddol |
|---|---|---|
| | | gwahaniaethu yn y gwaith. Byddai ymestyn y rheoliadau busnes yn golygu mwy o gefnogaeth i bob aelod o staff. |
| Anabledd | Cadarnhaol | Bydd y cynigion hyn yn golygu y bydd pob busnes optegol yn cyflawni swyddogaethau penodol a fydd yn cael eu rheoleiddio gan y Cyngor. Mae ein hymchwil canfyddiadau'r cyhoedd yn dangos bod pobl ag anabledd yn fwy tebygol o brofi rhywbeth yn mynd o'i le yn ystod ymweliad â'r optegydd/practis optometrydd. Bydd ymestyn rheoleiddio busnes i bob busnes optegol sy'n darparu swyddogaethau cyfyngedig penodol yn golygu y bydd yn ofynnol i bob busnes gydymffurfio â'n safonau a bydd gwell mynediad at iawn i ddefnyddwyr pe bai rhywbeth yn mynd o'i le.<br><br>Byddai cymhwysiad cyson safonau busnes y Cyngor hefyd yn fuddiol i gyflogeion oherwydd byddai'n darparu amgylchedd gwaith mwy safonol a diogel. Mae ein hymchwil yn dangos bod cofrestreion ag anabledd yn fwy tebygol o brofi aflonyddwch, bwlio, camdriniaeth neu wahaniaethu yn y gwaith. Rydym yn atgyfnerthu ein safonau i sicrhau bod busnesau yn darparu mwy o gefnogaeth i staff sy'n profi bwlio, aflonyddwch, camdriniaeth a gwahaniaethu yn y gwaith. Byddai ymestyn y rheoliadau busnes yn golygu mwy o gefnogaeth i bob aelod o staff |
| Rhyw | Cadarnhaol | Byddai cymhwysiad cyson safonau busnes y Cyngor hefyd yn fuddiol i gyflogeion oherwydd byddai'n darparu amgylchedd gwaith mwy safonol a diogel. Mae ein hymchwil yn dangos bod cofrestreion benywaidd yn fwy tebygol o brofi aflonyddwch, bwlio, camdriniaeth neu wahaniaethu yn y gwaith. Rydym yn atgyfnerthu ein safonau i sicrhau bod busnesau yn darparu mwy o gefnogaeth i staff sy'n profi bwlio, aflonyddwch, camdriniaeth a gwahaniaethu yn y gwaith. Byddai ymestyn y rheoliadau busnes yn golygu mwy o gefnogaeth i bob aelod o staff. |

| Nodwedd warchodedig | Math o effaith bosibl: cadarnhaol, niwtral, negyddol? | Esboniadau (gan gynnwys enghreifftiau neu dystiolaeth/data a ddefnyddiwyd) a'r camau sydd eu hangen i fynd i'r afael ag effaith negyddol |
|---|---|---|
| Ailbennu rhywedd (trawsryweddol (traws) ac anneuaidd) | Niwtral | |
| Priodas a phartneriaeth sifil | Niwtral | |
| Beichiogrwydd/ mamolaeth | Niwtral | |
| Hil | Cadarnhaol | Byddai cymhwysiad cyson safonau busnes y Cyngor hefyd yn fuddiol i gyflogeion oherwydd byddai'n darparu amgylchedd gwaith mwy safonol a diogel. Mae ein hymchwil yn dangos bod cofrestreion o gefndiroedd ethnig leiafrifol yn fwy tebygol o brofi aflonyddwch, bwlio, camdriniaeth neu wahaniaethu yn y gwaith. Rydym yn atgyfnerthu ein safonau i sicrhau bod busnesau yn darparu mwy o gefnogaeth i staff sy'n profi bwlio, aflonyddwch, camdriniaeth a gwahaniaethu yn y gwaith. Byddai ymestyn y rheoliadau busnes yn golygu mwy o gefnogaeth i bob aelod o staff |
| Crefydd/cred | Niwtral | |
| Cyfeiriadedd rhywiol | Niwtral | |
| Grwpiau eraill (e.e. gofalwyr, pobl o grwpiau economaidd- | | Bydd y cynigion hyn yn golygu y bydd pob busnes optegol yn cyflawni swyddogaethau penodol a fydd yn cael eu rheoleiddio gan y Cyngor. Mae ein hymchwil canfyddiadau'r cyhoedd yn dangos bod pobl sy'n profi amgylchiadau bywyd anodd yn fwy tebygol o brofi rhywbeth yn mynd o'i le yn ystod ymweliad â'r optegydd/practis optometrydd. Bydd ymestyn rheoleiddio busnes i bob busnes optegol sy'n darparu swyddogaethau cyfyngedig penodol |

| Nodwedd warchodedig | Math o effaith bosibl: cadarnhaol, niwtral, negyddol? | Esboniadau (gan gynnwys enghreifftiau neu dystiolaeth/data a ddefnyddiwyd) a'r camau sydd eu hangen i fynd i'r afael ag effaith negyddol |
|---|---|---|
| gymdeithasol gwahanol) | | yn golygu y bydd yn ofynnol i bob busnes gydymffurfio â'n safonau a bydd gwell mynediad at iawn i ddefnyddwyr pe bai rhywbeth yn mynd o'i le. |